

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talylychau nos Fawrth 4 Medi 2018 am 7.30 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: John Williams (Cadeirydd), Janine Roberts, Marged Bowen, Pauline George, Rhys Williams, y Cyngorydd Sir Joseph Davies, a Jane Morgan (Clerc).

Ymddiheuriadau: Sarah Walters ac Eifion Roberts. Daeth Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Donavan Kerr i'r cyfarfod am 7.45 pm.

Nid chafwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion sy'n codi.

Cadarnhawyd y datganiadau o gyfrifon. Janine Roberts.

Balans y cyfrif ar 28.06.18 oedd £5,621.51

Balans y cyfrif ar 17.07.18 oedd £4,998.91

Balans y cyfrif ar 23.08.18 oedd £5,018.91

Tynnwyd sylw at y praesept a oedd wedi dod i law ar 29.08.18: £2,666.67.

Y Cae Cymunedol. Ynghylch: Llythyr oddi wrth Ysgol Gynradd Talylychau yn gofyn am ganiatâd i gael mynediad i'r Cae Chwarae trwy'r Cae Cymunedol. Yn dilyn trafodaeth bellach, daeth y Cyngor Cymuned i'r penderfyniad na allent gydsynio â'r cais gan fod yna eisoes hawl tramwy i'r Cae Chwarae yn bodoli, y gallai'r ysgol ei ddefnyddio. Cytunwyd y dylid anfon llythyr i'r perwyl hwnnw i'r ysgol, gan amgáu copi o'r llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â chopi o'r cynllun a oedd yn cael ei gadw gan y Cyngor Sir.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cadarnhau'r Taliad a ddaeth i law gyda'r Dystysgrif.

Ein Newid Mawr yn y GIG. Ymateb Plaid Cymru i'r ymgynghoriad wedi cael ei anfon mewn neges e-bost at bob Cyngorydd.

Toiledau Cyhoeddus Talylychau. Llythyr wedi dod i law gan Jane Watson, yn amgáu copiâu o lythyr a anfonwyd i Gyngor Sir Caerfyrddin, ynghyd â'r ateb dilynol, ynghylch cau Toiledau Cyhoeddus Talylychau. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i anfon yr ateb canlynol, "Mae'r Cyngor Cymuned wedi cymryd Cyngor Cyfreithiol ynghylch lesio'r toiledau gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ac fe'i cynghorwyd i beidio ag ysgwyddo'r cyfrifoldeb am redeg y toiledau".

Neges e-bost wedi dod i law gan Wyn Edwards yn rhoi gwybod bod y Gysgodfan Bysiau ar y ffordd i Landeilo o'r pentref bellach wedi cael ei lanhau gan y Cyngor Sir. Roedd yr Hysbysfwrdd wedi cael ei lanhau a haen amddiffynnol wedi cael ei rhoi arno, yn ôl yr arfer blynyddol. Y Clerc i anfon nodyn o ddiolch.

Menter Hawliau Tramwy. Ymddiheuriadau wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin am beidio ag ymateb hyd hynny.

Cytunwyd y dylid anfon llythyr yn nodi bod y Llwybr Pren ar Fynydd Cynros wedi cael ei ddifrodi yn dilyn y tân ar y mynydd, a bod angen un newydd.

Gohebiaeth

Y ffioedd canlynol i'w talu:

J. Morgan Clerc Cyflog ar gyfer mis Gorffennaf £135.06.

J. Morgan Clerc Cyflog ar gyfer mis Awst £135.26.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £31.40.

M & J Maintenance, yn masnachu dan yr enw Grave Concerns. Torri Glaswellt Mynwent San Mihangel yn ystod mis Gorffennaf £430 a mis Awst £430. Cyfanswm £860.00.

F.C. Lewis. Torri'r Glaswellt a strimio deirgwaith am £110 y toriad. £330 a TAW £66. Cyfanswm £396.00. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod angen un toriad ychwanegol. Y Clerc i gysylltu ag F.C. Lewis i wneud toriad ychwanegol am £110.00 a TAW.

Llythyr gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr yn gofyn i'r Cyngor ystyried rhoi cymorth ariannol tuag at y gost o redeg y mudiad ar lefel sirol. Cytunwyd i roi £25.00 yr un i'r clybiau canlynol: Dyffryn Cothi, Llandeilo, Llanfynydd a Llangadog.

Cafodd yr ohebiaeth ganlynol ei dosbarthu a'i thrafod.

Dŵr o Dap yn y Fynwent. Neges e-bost wedi dod i law yn rhoi gwybod bod rhywun yn defnyddio tap dŵr y Fynwent yn ystod y tywydd poeth iawn. Cafodd y neges e-bost ei hanfon at yr holl Gynghorwyr ar unwaith. Cytunwyd i ateb trwy ddweud nad oes gan y Cyngor Cymuned ddim i'w wneud â'r cyflenwad dŵr.

Llythyr gan St. John Cymru yn rhoi gwahoddiad i'r Cyngor ymuno â'r Clwb Dathlu. I'w drafod ar ddiwedd y flwyddyn.

Llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Ynghylch: Ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Drafft (SPG): Ynni Gwynt a Solar.

Gweithdy ar y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yn Sir Gaerfyrddin.

Llythyr gan Gymdeithas yr Iaith yn gwahodd y Cyngor i anfon cynrychiolwyr i Fforwm Cyhoeddus am 10am ddydd Sadwrn 15 Medi yn Llyfrgell Caerfyrddin.

Llythyr gan GIG Cymru. Ynghylch: Gwasanaethau Llawdriniaeth Thorasig yn Ne Cymru, gyda Dogfen Ymgynghori yn amgaaedig.

Llythyr gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Cynigion Drafft. Hysbysiadau i gael eu gosod yn y ddau hysbysfwrdd.

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Aseiad Amgylcheddol Strategol.

Cylchlythyr Cynghorau Tref a Chymuned Cyngor Sir Caerfyrddin.

*Clerks & Councils Direct.*

Y Ffurflen Dreth Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar gyfer Cyngor Cymuned Talylychau.

Trafodwyd y manylion a oedd yn codi ar lafar. Hysbysiad o Benodi Dyddiad ar gyfer Arfer Hawliau Etholwyr. Dyrannu costau Staff. Roeddent am dynnu sylw'r Cyngor at y materion hyn, nad ydynt yn effeithio ar eu barn Archwilio ond y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â nhw. Nid oedd angen gweithredu ymhellach.

Yn 2017-18, rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru y gorau i godi ffi sefydlog am y gwaith a wneid ganddynt. Byddai'r ffi yn cael ei phennu yn ôl yr amser a dreulid ar bob archwiliad. Byddai anfoneb am £182.75 a TAW yn cael ei hanfon at y Cyngor. Yr arolwg o foddhad wedi cael ei gwblhau.

Hysbysiad o Gasgliad yr Archwiliad wedi cael ei gwblhau, ac i'w arddangos yn y ddau Hysbysfwrdd am 14 diwrnod.

Y Cod Ymddygiad.

Cafodd llythyr gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a oedd yn amgáu copiâu o bapurau Cwrs y Sesiynau Hyfforddi a gynhaliwyd ym mis Mehefin, ei ddosbarthu. Cais i'r Pwyllgor Safonau am Ffurflenni Gollyngiadau wedi dod i law.

Cynllunio.

E/37719. Dileu'r Amod Cynllunio. Dileu Amod Rhif 4 yn E/09574. Bwlchyrhyd, Talylychau, Mr a Mrs D ac A Owens. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Cytunwyd y dylid adrodd ar y canlynol i Adran Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin. Coeden beryglus yn codi o'i gwreiddiau ar y bryn o Fancelwydd tuag at Lansadwrn. Y coed ar Fancelwydd tuag at y pentref wedi tyfu'n wyllt uwchben ac yn isel iawn.

Nid oedd yna unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben tua 9.35 p.m.